

## Y Pwyllgor Menter a Dysgu Y Grŵp Rapporteur ar Ddwyieithrwydd

Papur 1

### 1. Gweithredoedd a llwyddiannau Llywodraeth Cymru i ddatblygu darpariaeth ar gyfer hyfforddiant galwedigaethol

Ar hyn o bryd mae 206 o gymwysterau a 60 o Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (NOS) ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg. Wedi'r Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009, fe fu'n rhaid i ysgolion uwchradd yn gyffredinol ehangu eu darpariaeth alwedigaethol ac i'r sector cyfrwng Cymraeg / dwyieithog gynnig mwy o gyrsiau drwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog. Yn sicr mae'r ffaith bod ysgolion a darparwyr wedi gorfod cynyddu'r ystod o opsiynau galwedigaethol sydd ar gael i fyfyrwyr wedi gorfodi'r sector cyfrwng Cymraeg / dwyieithog i arbrofi gyda dulliau mwy soffistigedig o gydweithio e.e. drwy ddefnyddio dulliau dysgu dros fideo gynhadledd, cydweithio â darparwyr lleol eraill gan gynnwys darparwyr preifat a cholegau addysg bellach. Bu sefydlu tri Fforwm Rhanbarthol Cyfrwng Cymraeg / Dwyieithog 14-19 ar gyfer y gogledd, y de a'r canolbarth, a'r gorllewin yn gyfrwng i hyrwyddo cydweithredu rhwng gwahanol ddarparwyr, yn aml yn drawsffiniol, ac i gydlynu'r gwaith, er bod llawer o ffordd i fynd eto. Nid oes, fodd bynnag, ddarlun clir ar gael ar hyn o bryd o'r graddau y mae awdurdodau lleol, ac ysgolion unigol, yn gallu bodloni gofynion Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009 i ddarparu lleiafswm o gyrsiau mewn cwricwla lleol drwy gyfrwng y Gymraeg, nac ychwaith o union natur profiadau ieithyddol y disgyblion sy'n dilyn y cyrsiau a gynigir mewn cydweithrediad

## Enterprise and Learning Committee Rapporteur Group on Bilingualism

Paper 1

### 1. The actions and success of the Welsh Government in developing provision for vocational training

Currently there are 206 qualifications and 60 National Occupational Standards (NOS) available through the medium of Welsh. After the Learning and Skills Bill (Wales) 2009, secondary schools in general have had to expand their vocational provision and the Welsh medium / bilingual sector had to offer more courses through the medium of Welsh or bilingually. Certainly the fact that schools and providers have had to increase the range of vocational options available to students has forced the Welsh medium / bilingual sector to experiment with more sophisticated methods of collaboration e.g. using learning methods for video conference, collaboration with other local providers including FE colleges and private providers. Three Welsh medium / Bilingual 14-19 Regional Forum were established for north, south and west Wales and were a means for promoting collaboration between different providers, often cross-border, and to coordinate the work, although there is a long way to go. However, there is not a clear picture currently available of the extent to which local authorities and individual schools can meet the requirements of the Learning and Skills Bill (Wales) Regulations 2009 to provide a minimum of courses in local curriculum through the medium of Welsh, nor information regarding the linguistic experiences of pupils following courses offered in collaboration in the Welsh-medium sector.

yn y sector cyfrwng Cymraeg.

Mae'r Bwrdd wedi ysgrifennu'n ffurfiol at APADGOS yn ddiweddar yn gofyn am ddarlun eglur o'r sefyllfa hon. Ni dderbyniwyd ymateb hyd yn hyn.

## **2. Hybu defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle**

Mae'r Bwrdd yn credu bod cynyddu defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle yn allweddol i ymdrechion i hybu a hyrwyddo'r Gymraeg yn gyffredinol. Mae'r Llywodraeth hefyd yn ei strategaeth "Iaith Pawb" wedi nodi bwriad i ysgogi cynnydd o ran defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle.

Ers 2006, mae'r Bwrdd wedi bod yn cefnogi prosiectau penodol ac wedi cydweithio gyda chyrrff cyhoeddus er mwyn canfod dulliau effeithiol o gynyddu defnydd o'r Gymraeg mewn gweithleoedd.

Bu'r Bwrdd yn cydweithio gyda Heddlu Gogledd Cymru; Cyngor Ceredigion; Gwasanaeth Llysoedd EM a Chyngor Cefn Gwlad Cymru yn ystod y cyfnod cyntaf (2006-08).

Roedd y prosiectau a ddatblygwyd yn treialu gwahanol ddulliau o gynyddu defnydd, gan gynnwys cyflwyno dewis iaith mewn cyfarfodydd mewnol; datblygu rhwydwaith o bencampwyr iaith; cyfleoedd i sgwrsio ac e-bostio'n anffurfiol; cynyddu'r arfer o ddrafftio'n Gymraeg; a darparu ffurflenni a thempledi mewnol yn ddwyieithog.

Lansiodd y Bwrdd ddogfen gyngor "Hyrwyddo a Hwyluso

The Board has written formally to DCELLS recently asking for clarification on this matter. No reply has been received to date.

## **2. The promotion of the Welsh language in the workplace**

The Board believes that increasing the use of the Welsh language in the workplace is a key part of the efforts to promote and encourage the Welsh language in general. The Government in its strategy "Iaith Pawb" has indicated an intention to stimulate the increased use of the Welsh language in the workplace.

Since 2006, the Board has been supporting specific projects and has collaborated with public bodies in order to find effective ways of increasing the use of the Welsh language in workplaces.

The Board worked with North Wales Police, Ceredigion Council, HM Courts Service and the Countryside Council for Wales during the first period (2006-08).

The projects piloted different methods of increasing use, including the introduction of language choice in internal meetings; developing a network of language champions; opportunities for informal chat and e-mailing; increase the practice of drafting in Welsh; internal forms and providing bilingual forms and templates.

Gweithleoedd Dwyieithog” ym mis Ionawr 2009 ac mae llawer o’r cynnwys yn seiliedig ar ganfyddiadau a phrofiadau’r prosiectau peilot cychwynnol.

Mae’r ddogfen yn rhoi cyngor i gyrff ar sut i hyrwyddo defnydd mewnol o’r Gymraeg ac yn cynnwys arweiniad ar faterion megis: llunio datganiad polisi; gosod amcanion; ymwbyddiaeth iaith; adeiladu ar sgiliau; cymhorthion a chymorth pellach.

Yn y ddwy flynedd ddiwethaf (2009/10 a 2010/11) mae’r Bwrdd wedi gweinyddu cynllun i roi cymorth ariannol ac ymarferol i gyrff cyhoeddus ar gyfer prosiectau peilot i ddatblygu dulliau newydd ac arloesol o ddatblygu’r Gymraeg yn y gweithle.

Cefnogwyd ceisiadau gan 9 o sefydliadau yn 2009/10 ac mae’r Bwrdd yn gweithio gyda 7 sefydliad eleni. Prosiectau cymharol fychan ydynt, ond gyda’r bwriad o sbarduno newid pellach yn y sefydliadau yn y tymor hir.

Rydym yn gobeithio parhau gyda’r gwaith yn y dyfodol drwy gydweithio gyda chyrrff cyhoeddus ar brosiectau pellach a darparu cyngor ac arweiniad ymarferol drwy rannu arfer da ar ein gwefan a chydlynu cyfarfodydd achlysurol gyda rhanddeiliaid.

### **3. Yr effaith a ragwelir o’r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg**

Roedd cyhoeddi’r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg yn

The Board launched a guidance document "Promoting and Facilitating Bilingual Workplaces" in January 2009 and much of the content is based on perceptions and experiences of the initial pilot projects.

The document provides advice to organisations on how to promote the internal use of the Welsh language and contains guidance on issues such as: making a policy statement; setting objectives; language awareness; building on skills and further help.

In the last two years (2009/10 and 2010/11) the Board has administered a scheme to give financial and practical support to public bodies for pilot projects to develop new and innovative approaches to develop Welsh in the workplace.

Applications from nine organisations were supported in 2009/10 and the Board is working with 7 organisations this year. The projects are relatively small, but the aim is to stimulate further change within the organisations in the long term.

We hope to continue with the work in future in collaboration with public bodies and provide practical advice and guidance through sharing good practice on our website and coordinate periodic meetings with stakeholders.

### **3. The anticipated impact of the Welsh-medium education strategy**

The Welsh-medium Education Strategy was published in April 2010, with an Action Plan to support it – a welcome

Ebrill 2010, gyda Chynllun Gweithredu i'w chefnogi, yn ddatblygiad i'w groesawu. Mae'r ffaith bod y Llywodraeth, am y tro cyntaf, wedi derbyn cyfrifoldeb am gynllunio a datblygu addysg cyfrwng Cymraeg o'r blynyddoedd cynnar hyd at addysg uwch yn gam pwysig. O'i gweithredu, byddai nifer fawr o amcanion strategol y Strategaeth yn cyfrannu'n gadarnhaol at gryfhau'r gyfundrefn addysg a hyfforddiant cyfrwng Cymraeg, ac yn gam sylweddol ymlaen. Rydym yn cydnabod y gwaith sydd eisoes ar y gweill mewn sawl maes blaenoriaeth, yn arbennig hyfforddiant a'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

Fodd bynnag, os nad yw bwriadau'r Strategaeth i'w llesteirio, ystyriwn ei bod yn hollbwysig bod y materion canlynol yn cael sylw:

- Yr angen am eglurhad o ran y drefn cynllunio newydd ac esblygiad y Cynlluniau Addysg Gymraeg statudol presennol a gytunir gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg, i drefn newydd Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg.
- Dulliau o ymateb i'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg, ac argaeledd y data priodol i gyflawni'r gwaith.
- Trafodaeth bellach a rhagor o ymchwil i gysyniad continwrm iaith i ddisgyblion.
- Yr angen am Strategaeth Datblygu'r Gweithlu i addysg cyfrwng Cymraeg.
- Dulliau o sicrhau cyllid digonol i weithredu'r cynigion.
- Dulliau o sicrhau bod y strwythurau priodol yn eu lle, er mwyn rhannu cyfrifoldeb am weithredu'r Strategaeth ymysg rhanddeiliaid a phartneriaid allweddol.

development. The fact that the Government, for the first time, has accepted responsibility for the planning and development of Welsh medium education from the early years to higher education is an important step. In implementing the Strategy a large number of strategic objectives will contribute positively to strengthen the Welsh medium education and training system. This is a significant step forward. We recognize the work already underway in several priority areas, especially training and the National Welsh Language College.

However, if the Strategy is not to be hindered, we consider it imperative that the following issues are addressed:

- The need for clarification regarding the new planning system and the evolution of the current statutory Welsh Education Schemes agreed by the Welsh Language Board to the new Welsh in Education Strategic Schemes.
- Ways to respond to the demand for Welsh medium education, and availability of appropriate data to carry out the work.
- Further discussion and further research into the concept of a language continuum for pupils.
- The need for a Welsh medium education Workforce Development Strategy.
- Ways to ensure adequate funding to implement the proposals.
- Methods of ensuring that appropriate structures are in place in order to share responsibility for implementing the strategy amongst key stakeholders and key partners.

#### **4. Sgîl effaith Mesur arfaethedig y Gymraeg (Cymru)**

Cyflwynwyd Mesur arfaethedig y Gymraeg (Cymru) gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar 4 Mawrth 2010. Y bwriad yw moderneiddio'r fframwaith cyfreithiol presennol dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 o ran y defnydd o'r Gymraeg wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus.

Yn ôl y Llywodraeth, bydd y Mesur arfaethedig hwn yn:

- cynnwys darpariaeth o ran statws swyddogol y Gymraeg yng Nghymru;
- sefydlu swydd Comisiynydd y Gymraeg a gaiff ei benodi gan y Prif Weinidog, gyda swyddogaethau a phwerau i hyrwyddo a hwyluso defnydd o'r Gymraeg, a hyrwyddo cydraddoldeb rhwng y Gymraeg a'r Saesneg;
- darparu Panel Ymgynghorol i'r Comisiynydd, a benodir gan Weinidogion Cymru, a fydd â rôl strategol, yn cynghori'r Comisiynydd o ran materion polisi ehangach;
- diddymu Bwrdd yr Iaith Gymraeg (o ganlyniad i sefydlu swyddfa Comisiynydd y Gymraeg);
- gwneud darpariaeth am safonau (i ddisodli Cynlluniau Iaith Gymraeg yn y pen draw) yn ymwneud â'r Gymraeg, a allai gynnwys safonau cyflenwi gwasanaethau, safonau llunio polisi, safonau gweithredu, safonau hybu a safonau cadw cofnodion. Y gwaith o baratoi, gosod a gorfodi i fod yn ddyletswyddau y Comisiynydd;
- gwneud darpariaeth ynghylch ymchwilio i ymyriadau

#### **4. The impact of the proposed Welsh Language (Wales) Measure**

The Proposed Welsh Language (Wales) Measure was introduced by the Welsh Assembly Government on 4 March 2010. It is intended to modernise the existing legal framework largely governed by the Welsh Language Act 1993 regarding the use of the Welsh language in the delivery of public services.

According to the Government, this proposed Measure will:

- include provision with regard to the official status of the Welsh language in Wales;
- establish the office of the Welsh Language Commissioner to be appointed by the First Minister, with functions and powers to promote and facilitate the use of Welsh, and promote equality between the English and Welsh languages;
- provide for an Advisory Panel to the Commissioner, appointed by the Welsh Ministers, who will have a strategic role, advising the Commissioner with regard to wider policy issues;
- abolish the Welsh Language Board (as a consequence of the establishment of the office of the Welsh Language Commissioner);
- make provisions about standards (to eventually replace Welsh Language Schemes) relating to the Welsh language, which may include service delivery standards, policy making standards, operational standards, promotion standards and record keeping standards. The preparation, imposition and

- honedig gyda'r rhyddid i ddefnyddio'r Gymraeg; a sefydlu Tribiwnlys y Gymraeg, i gynnwys Llywydd, aelodau lleyg ac aelodau cyfreithiol fel mecanwaith apelio i osod neu orfodi safonau gan y Comisiynydd.

Mae'r Mesur arfaethedig ar fin cwblhau'r Cam Cyntaf (o bedwar), gyda thrafodaeth ar ei egwyddorion cyffredinol yn y Cynulliad Cenedlaethol ar 21 Medi 2010. Disgwylir iddo ddod yn gyfraith yn gynnar y flwyddyn nesaf.

Nid yw'r Mesur arfaethedig wedi cael llawer o gymeradwyaeth hyd yn hyn; yn wir, mae llawer o agweddau wedi derbyn beirniadaeth eang gan ystod eang o gyrff, gan gynnwys Bwrdd yr Iaith Gymraeg. Bydd angen aros i weld pa newidiadau a wneir i'r Mesur arfaethedig yn sgil y beirniadaethau hyn.

## **5. Rôl y Cynghorau Sgiliau Sector**

Bellach (Medi 2010) mae gan 17 o'r CSSau Gynllun Iaith Gymraeg wedi ei gymeradwyo gan y Bwrdd. O'r 6 sy'n weddill, mae'n darged i sicrhau fod gan bob un ohonynt Gynllun Iaith wedi ei gymeradwyo cyn diwedd y flwyddyn (Mawrth 2011). Er mai dim ond yn ddiweddar yr enwyd y CSSau yn ffurfiol gan y Gweinidog dan Adran 6.1(o) y Ddeddf, mae'r cynghorau wedi bod wrthi'n paratoi cynlluniau ers ryw 3-4 mlynedd, dan y ddealltwriaeth y byddan nhw, fwy na thebyg, yn cael eu henwi yn y dyfodol. Ar y cyd gyda'r SSDA (fel yr oedden nhw bryd hynny, ond sydd bellach wedi

enforcement of which to be, in the main, carried out by the Commissioner;

- make provision about investigating alleged interferences with the freedom to use Welsh; and
- establish a Welsh Language Tribunal, to be comprised of a President, lay and legal members as an appeal mechanism to the imposition or enforcement of standards by the Commissioner.

The proposed Measure is about to complete its First Stage (of four), with a Debate on its general principles at the National Assembly on 21 September 2010. It is expected to become law early next year.

The proposed Measure has not met with much approval to date; in fact, many aspects have received widespread criticism from a broad range of bodies, including the Welsh Language Board. It remains to be seen what changes will be made to the proposed Measure in the light of these criticisms.

## **5. The role of sector skills councils**

By September 2010, 17 of the SSCs Welsh Language Scheme had been approved by the Board. Of the six remaining, it is a target to ensure that each one has a Welsh language scheme before the end of the year (March 2011). Despite the fact that it is only recently that the SSCs have been formally named by the Minister under Section 6.1 (o) of the Act, councils have been actively preparing plans for about 3- 4 years, under the understanding that they probably

ei ddiddymu wrth gwrs), lluniodd y Bwrdd dempled manwl iawn ar gyfer Cynlluniau Iaith Gymraeg y Cynghorau. Mae'r templed hwn yn nodi ymrwymiad y CSSau i ymchwilio ac ymateb i anghenion sgiliau iaith Gymraeg o fewn ei sector ac i gynghori ac arwain Darparwyr Dysgu i adnabod ac i ymchwilio i anghenion hyfforddi Cymru ddwyieithog. Mae yna ymrwymiad pendant hefyd ymhob cynllun i ymchwilio i argaeledd sgiliau dwyieithog ac anghenion y sector yn y dyfodol.

Ar hyn o bryd, adroddiadau monitro blynyddol a gyflwynir i'r Bwrdd gan y Cynghorau ydy'r dull sydd gennym o ganfod i ba raddau mae'r Cynghorau yn cyflawni'r mesurau yn eu Cynlluniau. O'r dystiolaeth sydd gennym yn yr adroddiadau hyn felly, mae nifer o'r Cynghorau wedi dechrau asesu'r angen am sgiliau yn y Gymraeg o fewn eu sectorau, megis Skillset, Sgiliau Adeiladu a Sgiliau er Cyfiawnder.

Mae'r adroddiadau a'r trafodaethau fodd bynnag, wedi ein gwneud yn ymwybodol o'r anawsterau sy'n codi o du'r Cynghorau wrth iddynt geisio cyflawni gofynion y mesurau hyn yn eu Cynlluniau:

- O ran yr hyn a adroddir arno, ymddengys nad oes eglurder na dealltwriaeth lawn ymysg y Cynghorau rhwng; 1) mesur yr angen am sgiliau ieithyddol yn y Gymraeg o fewn y sector, 2) mesur yr angen am hyfforddiant galwedigaethol drwy gyfrwng y Gymraeg a 3) chynnal unrhyw arolygon ymchwil eraill ymhlith cyflogwyr y sector drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Mae'r cynghorau wedi mynd ati'n lled annibynnol i greu teclynnau i fesur yr anghenion hyn, nid oes

will be named in the future. In conjunction with the SSDA (as they were then, but now disbanded, of course), the Board formulated a very detailed template for the Councils Welsh Language Schemes. The template indicates the commitment of the SSCs to investigate and respond to the needs of Welsh language skills within its sector and to advise and guide Learning Providers to identify and explore the training needs of a bilingual Wales. There is also a firm commitment in each scheme to investigate the availability of bilingual skills and needs of the sector in the future.

Currently, annual monitoring reports submitted to the Board by the Councils is the method used to measure the extent to which the Councils deliver the measures in their schemes. From the evidence we have in these reports a number of Councils have begun to assess the need for Welsh language skills within their sectors, such as Skillset, Construction Skills and Skills for Justice.

The reports and discussions, however, have made us aware of the difficulties arising from the Councils as they seek to fulfil the requirements of these measures in their plans:

- On what is reported, it appears that there is no clarity among the Councils regarding 1) measuring the needs for Welsh language skills within the sector, 2) measurement of the need for vocational training through the medium of Welsh and 3) conduct any other research surveys amongst employers within the sector through the medium of Welsh.
- The councils have acted independently to create a method to measure these needs but they have no

ganddynt unrhyw fframwaith gyffredin. Wrth gwrs mae gwaith ymchwil diweddar Merfyn Morgan ar ran APADGOS wedi cynhyrchu canllaw arfer da yn y maes hwn a fydd o ddefnydd i'r Cynghorau.

- Mae'r cynghorau wedi bod drwy broses o ail-drwyddedu'n ddiweddar a olygai gwaith ymgynghori sylweddol gyda chyflogwyr. Nid yw'r mesurau hyn wedi cael blaenoriaeth felly.
- Mae cyflawni gofynion statudol eraill y Cynlluniau Iaith (h.y yr ymrwymadau yn ymwneud â'r elfennau gweinyddol a gweledol) wedi bod yn her i'r cynghorau sy'n cael eu harwain ar lefel Brydeinig, lle mae ymwybyddiaeth sefydliadol o natur ddwyieithog Cymru yn isel. Yr elfennau hyn sydd wedi cael blaenoriaeth felly yn ystod y cyfnod cychwynnol. Yn ogystal â hyn, mae'r cynghorau yn adrodd i ni nad yw'r adnoddau staffio a chyllid a ddyrennir i Gymru yn ddigonol i'w galluogi i gyflawni'r gofynion e.e un aelod o staff i weithio dros Gymru gyfan sydd gan nifer o gynghorau. Gallwn ategu drwy nodi mai ymysg y cynghorau hynny sydd â chyfradd uwch o staff yng Nghymru y mae'r gweithgarwch mwyaf ym maes asesu sgiliau.

#### **6. Problemau sy'n effeithio ar wasanaethau Cymraeg a ddarperir gan fusnesau e.e.y diffyg sgiliau dwyieithog, y gwahaniaeth yn y sectorau ac ardaloedd daearyddol**

**Dim profiad o gynnig gwasanaethau mewn mwy nag un iaith**

Mae diwylliant busnes ym Mhrydain yn anarferol o uniaith, ac

common framework. Of course, recent research by Merfyn Morgan on behalf of DCELLS has produced good practice guidance in this area which will be of use to the Councils.

- The councils have been through the process of re-licensing lately which meant substantial consultation with employers. These measures have not therefore had priority.
- Achieving the other requirements of the statutory language schemes (i.e. the commitments relating to the administrative and visual elements) has been a challenge for councils who are led on a British level, where institutional awareness of the bilingual nature of Wales is low. These elements have therefore been a priority during the initial period. In addition, the councils have reported to us that the staffing resources and funding allocated to Wales is insufficient to enable them to fulfil requirements eg many councils have only one staff member to work all over Wales. It is noteworthy that it is those councils with a higher rate of staff in Wales that have the most activity in assessing skills.

#### **6. The problems affecting Welsh services provided by businesses e.g. the bilingual skills deficit, the variation in sectors and geographical areas**

**No experience of offering services in more than one language**

Business culture in the UK is unusually monolingual, and few businesses have experience in providing services in more than one language, or in developing and managing



y chydig o fusnesau sydd â phrofiad o ddarparu gwasanaethau mewn mwy nag un iaith, neu mewn datblygu a rheoli systemau sy'n galluogi darparu gwasanaeth dwyieithog. Mae hyn yn wahanol i'r arfer rhyngwladol safonol, gan fod mwy nag un iaith a ddefnyddir yn gyffredin yn y rhan fwyaf o wledydd, a hyd yn oed lle mae yna brif iaith, bydd systemau a phrosesau yn aml yn cael eu cynllunio i ymdopi â'r Saesneg fel iaith ychwanegol 'rhyngwladol'. Mae hyn yn gyntaf oll yn her dechnegol, gan ei bod fel rheol yn anodd i addasu systemau gwasanaeth cwsmeriaid „a etifeddwyd“ fel eu bod yn gallu delio â mwy nag un iaith. Er bod buddion niferus iawn i adeiladu system newydd, mae hyn yn aml yn ddrud iawn, ac mae risg sylweddol i ddilyniant busnes wrth roi'r system newydd ar waith ac hefyd wrth drosglwyddo o'r hen system i'r newydd. Mae hyn hefyd yn her diwylliannol. Mae pobl yn tueddu i fod yn bryderus am ddefnyddio'r Gymraeg ochr yn ochr â'r Saesneg, gan bod gwneud hynny yn anghyfarwydd, ac nid yw'n teimlo 'normal' iddynt. Mae hynny'n aml yn wir hyd yn oed pan fydd pobl yn medru siarad Cymraeg.

### **Dim dull cydnabyddedig i asesu a datblygu sgiliau iaith Gymraeg**

Y chydig iawn o gyflogwyr sydd wedi sefydlu systemau i asesu sgiliau Cymraeg fel rhan o ddethol, recriwtio neu ddatblygu staff. Er bod cydnabyddiaeth eang bod yna 'ddiffyg sgiliau', mae'r ystyriaeth a roddir i sgiliau Cymraeg fel arfer yn eithaf elfennol. Mae ymchwil a gynhaliwyd yn 2005 ar gyfer Sgiliau Dyfodol Cymru, lle holwyd dros 2000 o gyflogwyr mewn saith sector busnes, yn casglu bod:

*"Dim ond 2% o fusnesau gyda'r angen am sgiliau iaith*

systems which enable bilingual service delivery. This is in contrast to standard international practice, because most countries have more than one language in common use, and even where there is a dominant language, systems and processes will often be designed to cope with English as an additional „international“ language.

This is first of all a technical challenge, because it is generally difficult to modify „legacy“ customer service systems so that they are able to handle more than one language. Although there are very many benefits to building a new customer service system, this is often very expensive, and both the implementation of a new system and the switch from the old system to the new poses considerable risks for business continuity.

It is also a significant cultural challenge. People tend to be apprehensive about using Welsh alongside English, because doing so is unfamiliar and does not feel „normal“ to them. This is often the case even where they are themselves able to speak Welsh.

### **No recognized approach to assessing and developing Welsh language skills**

Few employers have established systems to assess Welsh language skills as part of selection, recruitment or staff development. Although there is widespread recognition that there is a „skills deficit“, the consideration given to Welsh language skills is usually quite rudimentary. Research conducted in 2005 for Future Skills Wales surveyed over 2000 employers in seven business sectors and found that:

*“Only 2% of businesses with a need for Welsh language*

*Gymraeg sydd â dull ffurfiol o adnabod sgiliau Cymraeg ac anghenion hyfforddiant eu staff presennol."*

*"Ymddengys nad yw busnesau Cymreig yn ystyried y gallu i siarad, darllen neu ysgrifennu Cymraeg fel sgiliau ynddynt eu hunain, ond yn fwy fel nodwedd sy'n datblygu'n ddigymell. Mae'r adroddiad yn nodi y canfyddiad hwn fel rhwystr posibl i ddatblygiad pellach sgiliau Cymraeg fel arf sy'n fanteisiol yn economaidd a masnachol."*

### **Lleoliad daearyddol**

Mae busnesau yn fwy tebyg o fedru cynnig gwasanaeth Cymraeg mewn rhannau o Gymru lle mae canran uwch o siaradwyr Cymraeg.

Mae hyn yn bennaf oherwydd bod ganddynt fynediad at gronfa fwy o siaradwyr Cymraeg, ond gallai hefyd adlewyrchu gwahanol agweddau tuag at ddefnyddio'r Gymraeg, gan gynnwys cydnabyddiaeth bod y Gymraeg yn medru bod yn ased economaidd ac yn anghenraid wrth gyfathrebu gyda'r cymunedau Cymraeg y maent yn eu gwasanaethu.

### **Amrywiadau sectorol**

Ymddengys bod rhai sectorau yn rhoi mwy o bwyslais ar ddarparu gwasanaethau i gwsmeriaid mewn Cymraeg. Mewn rhai achosion mae hyn yn adlewyrchu iaith y cynnyrch craidd (ee: llyfrau, cerddoriaeth, cyfryngau print a darlledu). Mewn rhai sectorau gwasanaeth ac adwerthu gallai adlewyrchu mantais gystadleuol go iawn. Er enghraifft, mae'r sector bancio ar y stryd fawr yn gwneud ymdrech nodedig i gynnig gwasanaethau Cymraeg, gyda hysbysebu a marchnata dwyieithog yn gefn iddynt. Gallai hyn adlewyrchu diffyg cystadleuaeth ar sail pris (mae bancio cyfrif cyfredol yn

*skills have a formal method of identifying the Welsh language skills and training needs of their existing staff."*  
*"Welsh businesses seem to view the ability to speak, read or write Welsh not to be a skill as such, but more of a naturally occurring attribute. The report identifies this perception as a potential barrier to the further development of Welsh language skills as a commercially and economically advantageous tool."*

### **Geographical location**

Businesses are more likely to be able to offer a Welsh language service in parts of Wales where there is a higher percentage of Welsh speakers. This is largely because they have access to a larger pool of Welsh speakers, but may also reflect different attitudes towards the use of Welsh, including recognition that the Welsh language can be an economic asset and communication necessity when dealing with the Welsh speaking communities that they serve.

### **Sector variation**

Certain sectors appear to place more emphasis on delivering services to customers in Welsh. In some cases this reflects the language of the core product (books, music, print and broadcast media). In some service and retail sectors it appears to reflect a genuine competitive advantage. For example, the high street banking sector makes a notable effort to offer services in Welsh, reinforced by bilingual advertising and marketing. This may reflect the lack of price competition (current account banking is free, and so banks compete on service quality and brand value) and the value of trust and customer

rhad ac am ddim, ac felly mae banciau yn cystadlu ar sail ansawdd gwasanaeth a gwerth brand) a gwerth ymddiriedaeth a teyrngarwch cwsmeriaid (gall siarad Cymraeg ddatblygu perthynas dda yn gyflym iawn gyda rhai cwsmeriaid, ac mae darparu gwasanaethau Cymraeg yn cyfrannu at deyrngarwch cwsmeriaid a"u cadw). Serch hynny, mae yna sectorau eraill nad ydynt yn amlwg yn defnyddio mwy o Gymraeg, er y gellid disgwyl bod yr un dylanwadau yn berthnasol (ee: gofal sylfaenol, ffonau symudol) .

### **Helpu busnesau i ddefnyddio mwy o Gymraeg**

#### **Polisiau Iaith Gymraeg**

Prif arf Bwrdd yr Iaith Gymraeg ar gyfer busnesau yw Templed Polisi Iaith Gymraeg, sy'n cynnig arweiniad a sicrwydd i reolwyr ar bob agwedd o ddefnyddio'r Gymraeg o fewn eu busnes. Cefnogir yr adnodd hwn gan gyngor wyneb-i-wyneb gan swyddogion cefnogi busnes y Bwrdd, sy'n cynnig dull hyblyg a rhagweithiol o helpu busnesau i gynyddu eu defnydd o'r Cymraeg mewn ffordd ymarferol a chynaliadwy. Lanswyd yr adnodd hwn ar ddiwedd 2008, ac mae ar hyn o bryd dros 320 o fusnesau sydd wedi mabwysiadu Polisi Iaith Gymraeg.


loyalty (speaking Welsh can establish a rapport very quickly with certain customers, and delivering services in Welsh contributes to customer loyalty and retention). However, there are other sectors which are not typically characterised by a more prominent use of Welsh, even though the same influences might be expected to apply (primary care, mobile phones).

### **Helping businesses to use more Welsh**

#### **Welsh Language Policies**

The Welsh Language Board's principal resource for businesses is a Welsh Language Policy Template, which offers managers guidance and reassurance on all aspects of using Welsh within their business. This resource is supported by face-to-face advice by the Board's business support officers, which offers a flexible and proactive approach to helping businesses to increase their use of Welsh in pragmatic and sustainable ways. This resource was launched at the end of 2008, and there are currently over 320 businesses which have adopted a Welsh Language Policy.

**Cynnydd mewn Polisiâu Iaith Gymraeg 2008-2010**  
**Increase in the number of Welsh Language Policies 2008-2010**



### **Cynllun Iaith Gwaith**

Mae cynllun iaith Gwaith y Bwrdd yn helpu i hyrwyddo gwasanaethau Cymraeg drwy ddefnyddio icon bach i ddynodi gwasanaethau sydd ar gael yn Gymraeg, a staff sy'n medru siarad Cymraeg. Mae'r Bwrdd yn dosbarthu tua 10,000 o fathodynau y flwyddyn i unigolion, ysgolion a chyflogwyr, ac hefyd yn defnyddio taith hyrwyddo blynyddol a i godi ymwybyddiaeth o'r cynllun.

### **Working Welsh Scheme**

The Board's Working Welsh scheme helps to promote Welsh language services by using a small icon to denote services that are available in Welsh, and staff who are able to speak Welsh. The Board distributes about 10,000 badges per annum to individuals, schools and employers, and also uses an annual promotion tour to raise awareness of the scheme.

## **7. Diffyg hyder pobl sy'n siarad Cymraeg i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle**

Dangosodd Arolygon Defnydd Iaith 2004-06 mai 58% o'r rhai oedd yn gallu siarad Cymraeg oedd yn ystyried eu hunain yn rhugl. Dengys canlyniadau'r Arolygon hefyd y gydberthynas rhwng rhuglder a defnydd: o blith y rhai a siaradai Gymraeg yn rhugl roedd 87% yn dweud eu bod yn siarad Cymraeg bob dydd (y ganran gyfatebol ar gyfer y rhai nad oeddynt yn rhugl oedd 29%) (noder nad oes gwybodaeth am y meini prawf a ddefnyddiodd y siaradwyr i nodi rhuglder). Wrth edrych ar ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle, gwelwn mai'r ffactorau a ddylanwadai fwyaf ar y defnydd o'r Gymraeg oedd rhuglder, a gallu rhan fwyaf goruchwylwyr a chydweithwyr eraill i siarad Cymraeg. Lle roedd mwyafrif y cydweithwyr perthnasol yn gallu siarad Cymraeg, roedd rhwng 73% a 84% (yn dibynnu ar eu hoed) o'r gweithwyr a oedd yn gallu siarad Cymraeg yn siarad Cymraeg â'r bobl hyn. Fodd bynnag, 25% o'r siaradwyr rhugl oedd yn ysgrifennu rhywbeth yn rheolaidd yn Gymraeg, gyda 29% yn ysgrifennu yn Gymraeg weithiau. Canfuwyd cysylltiad cryf cadarnhaol rhwng amllder siarad Cymraeg ac amllder ei hysgrifennu.

### **Manylion Cyhoeddiad**

Mae'r cwestiwn yn cyfeirio'n benodol at hyder „siaradwyr Cymraeg” i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle. Mae'r grŵp „siaradwyr Cymraeg” yn cwmpasu amrediad eang o sgiliau ac anghenion ieithyddol; ee. gall rhai unigolion sydd yn gwbl

## **7. The lack of confidence in Welsh speaking people not using Welsh in the workplace**

The 2004-06 Language Use Survey showed that 58% of those who could speak Welsh considered themselves fluent. Survey results also show the correlation between fluency and use: among those who spoke Welsh fluently 87% said they spoke Welsh daily (the equivalent percentage for those who were not fluent 29%) (Note: There is no information about the criteria used by the speakers to note their fluency). When looking at use of the language in the workplace, we see that the factor that influenced most was fluency and the ability of supervisors and other colleagues to speak Welsh. Where the majority of relevant colleagues spoke Welsh, between 73% and 84% (depending on age) of workers who could speak Welsh did speak Welsh with these people. However, only 25% of the fluent Welsh speakers wrote something regularly in Welsh, with 29% writing in Welsh sometimes. A strong positive association was found between frequency of speaking Welsh and the frequency of writing in Welsh.

### **Publication Details**

The question specifically refers to the confidence of „Welsh speakers” to use the Welsh language at work. The group „Welsh speakers” covers a wide range of linguistic skills and needs, e.g. some individuals who are completely fluent and confident in speaking Welsh can lack confidence when it comes to drafting formal reports in Welsh. This lack of confidence can be derived from a real need to strengthen

rugl a hyderus ar lafar fod yn ddihyder pan ddaw'n fater o ddrafftio adroddiadau ffurfiol yn y Gymraeg. Gall y diffyg hyder hwn ddeillio o angen gwirioneddol i gryfhau sgiliau, neu angen o fath gwahanol i ymarfer a rhoi sgiliau cudd ar waith yn rheolaidd. Mewn sefyllfaoedd eraill, gall unigolyn sydd wedi meistroli ffurfiau ysgrifenedig neu ffurfiol y Gymraeg fod angen rhoi sylw penodol i ddefnyddio'r iaith ar lafar; gall hyn hefyd fod yn gyfuniad o feistroli cystrawennau, ymadroddion ac ati, a magu hyder drwy arfer rheolaidd. Wrth edrych ar y defnydd a wneir o'r Gymraeg yn y gweithle, ymddengys fod y ffactor „hyder“ yn gyfuniad o ystyriaethau „ieithyddol“ ac eraill sydd ynghlwm â ffactorau megis agweddau a chanfyddiadau. Os ydym am weld cynnydd yn y defnydd a wneir o'r Gymraeg fel iaith fewnol y gweithle, mae'n rhaid rhoi ystyriaeth fanwl, felly, i'r meysydd isod:

- Sicrhau dulliau clir a strategol o ddiffinio neu ddisgrifio'r mathau o sgiliau sydd eu hangen ar gyfer y gweithle (a yw'r dulliau presennol yn rhoi sylw digonol i amrywiaeth yr anghenion sydd yn gallu codi o ran defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle?)
- Sicrhau fod amrediad yr hyfforddiant sydd ar gael yn diwallu'r anghenion hyn (i ba raddau y mae'r ddarpariaeth bresennol yn ymateb mewn modd cydlynus a strategol i anghenion ieithyddol y gweithle?)
- Sicrhau cyfathrebu effeithiol a strategol rhwng y byd addysg, darparwyr hyfforddiant a gweithleoedd, er mwyn sicrhau fod pob cam o'r broses datblygu sgiliau yn rhoi dilyniant i'r unigolyn ac yn cwrdd ag anghenion y gweithle
- [Yn Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg Llywodraeth Cynulliad Cymru Ebrill 2010 ceir cyfeirio

skills or a different need to practice and put into practise their hidden skills. In other situations, a person who has mastered written or formal Welsh may need particular attention to use the spoken language; this can also be a combination of mastering syntax, expressions, etc. And to gain confidence by using the language regularly.

When looking at the use of the language in the workplace, it appears that the „confidence“ factor is a combination of „language“ considerations and others associated with factors such as attitudes and perceptions. If we wish to see an increase in the use made of the language as a language of internal workplace, we must give careful consideration to the following fields:

- Ensure clear and strategic methods of defining or describing the types of skills needed for the workplace (are current methods adequate to address the diversity of needs that can arise in relation to use the language in the workplace?)
- Ensure a range of training available to meet these needs (to what extent does the existing provision respond in a coherent and strategic way to the linguistic needs of the workplace?)
- Ensure effective and strategic communication between education, training providers and workplaces, to ensure that all stages of the skills development process provides the individual with continuity and meets the needs of the workplace
- [The Welsh Assembly Government's Welsh-medium Education Strategy (April 2010) makes specific reference to the importance of developing language skills for the workplace. In this regard, it is important to

penodol at bwysigrwydd meithrin sgiliau iaith Gymraeg ar gyfer y gweithle. Yn y cyswllt hwn, mae'n bwysig rhoi sylw i faterion megis cymwysterau galwedigaethol a darpariaeth hyfforddiant penodol ar gyfer y gweithle, ond hefyd i egwyddorion ehangach megis dilyniant ieithyddol drwy'r cyfnodau addysg].

- Agweddau sefydliadol tuag at y Gymraeg: „hinsawdd“ y gweithle yn cael ei ddiffinio yn nhermau polisïau penodol mewn meysydd megis cyfleoedd hyfforddiant ac anogaeth i roi sgiliau ar waith
- Agweddau cydweithwyr (a chwsmeriaid allanol) tuag at ddefnyddio'r Gymraeg: gweithwyr sydd yn wrthwynebus i'w defnydd, ag agweddau gweithwyr ar faterion megis „cywirdeb ieithyddol“

### **Cynllun Ymchwil Bwrdd yr Iaith Gymraeg 2010-11: Defnydd Mewnol o'r Gymraeg mewn Gweithleoedd**

Mewn ymgais i ddeall mwy am y ffactorau sydd yn dylanwadu ar y defnydd a wneir o'r Gymraeg fel iaith fewnol y gweithle yn y sector cyhoeddus, mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn cynnal Cynllun Ymchwil yn ystod 2010-11. Mae'r Cynllun yn rhoi sylw penodol i'r meysydd isod; mae'r elfen hyder yn berthnasol ar sawl lefel:

#### **Sgiliau ieithyddol**

*Dulliau a fframweithiau i gofnodi cyrhaeddiad a gallu ieithyddol*

*Strwythurau i annog dilyniant a chynnydd*

*Addasrwydd sgiliau i anghenion y gweithle (ee. ieithwedd, defnydd anffurfiol a ffurfiol o'r Gymraeg)*

*Anghenion hyfforddiant: adnabod anghenion; teilwra*

address issues such as vocational qualifications and the provision of specific training for the workplace, but also to broader principles such as linguistic progression through the stages of education].

- Institutional attitudes towards the Welsh language: „climate“ of the workplace is defined in terms of specific policies in areas such as training opportunities and encouragement to put skills into practice.
- Attitudes of colleagues (and external customers) towards the use of the language: the workers who object to its use, attitudes of workers on issues such as „linguistic accuracy.“

### **Welsh Language Board Research Plan 2010-11: Internal Use of the language in Workplaces**

In an attempt to understand more about the factors that influence the use of the Welsh language as the internal language of work in the public sector, the Welsh Language Board has a Research Plan in operation in 2010-11. The Plan gives particular attention to the areas noted below. The element of confidence is relevant on several levels:

#### **Language skills**

*Methods and frameworks for recording attainment and language ability*

*Structures to encourage continuity and progression.*

*Appropriate skills to the needs of the workplace (eg. Language, formal and informal use of the language).*

*Training needs: identifying needs; tailoring training to meet*

*hyfforddiant i ateb gofynion; ôl-ofalaeth a datblygiad proffesiynol parhaus*

### **Rhoi'r sgiliau ar waith**

*Dulliau o sefydlu gwaelodlin o arferion iaith fel sail ar gyfer amcanion cynnydd*

*Hunangred a hunanhyder siaradwyr: canfyddiad siaradwyr o'u gallu yn y Gymraeg ac effaith hyn ar eu defnydd o'r iaith Newidynnau eraill sydd yn dylanwadu ar y defnydd a wneir o'r Gymraeg (deinamig ieithyddol rhwng unigolion; gweithdrefnau rheolaethol a strwythurol y gweithle; cydweithio rhwng lleoliadau; ystyriaethau ymarferol o safbwynt cyfarpar, cynhaliaeth ac anogaeth)*

Bwriedir i adroddiad terfynol y gwaith ymchwil hwn fod ar gael erbyn mis Mawrth 2011.

### **8. Pwysigrwydd arwyddion yn y gweithle / mewn busnes**

O safbwynt cynllunio iaith, mae arwyddion dwyieithog amlwg yn bwysig am nifer o resymau, gan gynnwys:

- Proffil iaith – mae defnydd gweledol o'r Gymraeg ar arwyddion yn codi bri a statws yr iaith. Mae hyn yn arbennig o bwysig lle mae'r iaith yn cael ei defnyddio gan fusnesau sydd yn uchel eu parch gyda brandiau adnabyddus. Mae hyn yn cael effaith gefnogol, sy'n cyfrannu at 'normaleiddio' defnydd o'r Gymraeg.
- Defnydd iaith – mae defnyddio Cymraeg ar arwyddion yn gwahodd ac yn annog pobl i ddefnyddio Cymraeg wrth ymwneud â busnes. Wrth bod arwyddion

*requirements; after-care and continuing professional development.*

### **Put skills into practice**

*Methods of establishing a baseline of language practice as a basis for progress goals.*

*Self confidence of speakers: speakers perception of their abilities in Welsh and the impact on their use of language .*

*Other variables that influence the use of the language (linguistic dynamic between individuals; structural and managerial procedures in the workplace; collaboration between locations; practical considerations in terms of equipment, support and encouragement).*

The final report of this research should be available by March 2011.

### **8. The importance of signage in the workplace/business**

From a language planning perspective, prominent bilingual signage is important for a number of reasons, including:

- Language profile – visible use of Welsh on signage raises the prestige and status of the language. This is particularly important where it is used by well-regarded businesses and is a part of respected brands. This has a legitimising effect, which contributes to „normalising“ the use of Welsh.
- Language use – using Welsh on signage invites and encourages people to use Welsh in their interaction with a business. As bilingual signage becomes more



dwieithog yn dod yn fwy cyffredin, weithiau gall diffyg arwyddion Cymraeg gael ei weld fel arwydd nad yw busnes yn croesawu defnyddio'r Gymraeg gan staff a chwsmeriaid.

Mae arwyddion dwieithog yn bwysig hefyd i fusnesau, oherwydd:

- Dyma'r ffordd hawsaf iddynt ddangos eu bod yn deall pwysigrwydd defnyddio'r Gymraeg yng Nghymru, a'u bod yn ymrwymedig i barchu cymeriad ieithyddol a diwylliannol unigryw Cymru. Prin iawn yw cost ychwanegol arwyddion dwieithog pan fyddant yn cael eu gosod fel rhan o gomisiynu, ail-frandio neu adnewyddu adeilad.
- Mae tystiolaeth dda bod cwsmeriaid yn deall ac yn gwerthfawrogi defnyddio'r Gymraeg ar arwyddion, p'un a ydynt yn eu hunain yn gallu siarad Cymraeg ai peidio. Mewn arolwg cynrychioladol, cytunodd 82% o bobl yng Nghymru eu bod yn falch o'r Gymraeg a cytunodd 76% bod hysbysebu a marchnata dwieithog yn bwysig. Mae'r ffigurau hyn yn llawer uwch na'r ganran sy'n medru siarad Cymraeg. Mae'n amlwg bod mwyafrif helaeth o bobl yng Nghymru yn hoffi gweld arwyddion dwieithog, hyd yn oed os nad ydynt yn gallu deall y geiriau Cymraeg sy'n cael eu cynnwys arnynt.
- Mewn rhai achosion (megis ceisiadau cynllunio) mae busnesau wedi defnyddio arwyddion dwieithog ac agweddau eraill ar ddefnyddio'r Gymraeg (fel y cynllun bathodyn Iaith Gwaith) fel tystiolaeth o'u sensitifrwydd i anghenion y gymuned leol, ac fel arwydd o arferion busnes cyfrifol.

common, the absence of Welsh on signage can sometimes be taken to indicate that a business does not welcome the use of Welsh by staff and customers.

Bilingual signage is also important for businesses, because:

- It is the easiest way for them to demonstrate that they have an understanding of the importance of using Welsh in Wales, and that they are committed to respecting the distinctive linguistic and cultural character of Wales. When installed as part of an initial fit-out, rebranding or refurbishment of premises, the additional costs of bilingual signage are minimal.
- There is good evidence that customers appreciate and value the use of Welsh on signage, regardless of whether or not they are themselves able to speak Welsh. In a representative survey, 82% of people in Wales agreed that the Welsh language is something to be proud of and 76% agreed that bilingual adverts and marketing are important. These figures are far higher than the percentage actually able to speak Welsh. It is clear that a significant majority of people in Wales like to see bilingual signs, even if they cannot understand the Welsh words which are included on them.
- In some cases (typically planning applications) businesses have used bilingual signage and other aspects of Welsh language use (such as the Working Welsh badge scheme) as evidence of their sensitivity to local community needs, and as a reflection of

- Mewn rhai achosion, yn enwedig mewn rhannau o Gymru sydd â chyfran uchel o bobl sy'n medru siarad Cymraeg, ac yn y sectorau twristiaeth a lletygarwch, mae arwyddion dwyieithog yn cael eu defnyddio fel arf marchnata i atgyfnerthu brandiau sy'n seiliedig ar hunaniaeth benodol Gymreig (ee: Gwesty'r Harbwr, Portmeirion)
- Mewn rhai achosion, mae arwyddion dwyieithog yn adlewyrchu'r ffaith bod busnes yn darparu i farchnad benodol Gymraeg, yn enwedig yn y diwydiannau creadigol.
- Mae telerau sy'n gysylltiedig â grantiau, benthyciadau a nawdd yn gynyddol yn ei gwneud hi'n ofynnol bod arwyddion sydd wedi eu cefnogi o gyllid cyhoeddus yn ddwyieithog.
- Nid ydym yn ymwybodol o unrhyw ddata sy'n amlygu cynnydd yn y defnydd o'r Gymraeg ar arwyddion dros y ddegawd diwethaf, ond mae'n cael ei dderbyn yn gyffredinol bod tuedd gyson tuag at ddefnydd mwy gweladwy a chyffredin o'r Gymraeg ar arwyddion, yn enwedig yn y sector manwerthu. Nid oes unrhyw ofyniad deddfwriaethol sy'n mynnu bod busnesau yn defnyddio'r Gymraeg ar arwyddion, ac felly mae'n gasgliad rhesymol bod y newid arfer hwn yn adlewyrchu'r themâu cyffredinol a amlinellir uchod (yn ogystal ag amrywiaeth o resymau penodol ar gyfer busnesau unigol).

responsible business practice.

- In some cases, especially in parts of Wales which have a high proportion of people able to speak Welsh, and in the tourism and hospitality sectors, bilingual signage is used as a marketing tool to reinforce brands built around a distinctively Welsh brand identity (eg: Harbourmaster, Portmeirion)
- In some cases, bilingual signage reflects the fact that the business caters to a specifically Welsh-language market, especially in the creative industries.
- The terms on which grants, loans and sponsorship are offered to businesses increasingly require that signs which have been supported from public funds should be bilingual.
- We are not aware of any data which demonstrates an increase in the use of Welsh on signage over the past decade, but it is generally accepted that there has been a constant trend towards more visible and universal use of Welsh on signage, especially in the retail sector. There is no legislative requirement that businesses should use Welsh on signage, and so it is reasonable to assume that this changing practice reflects the general themes outlined above (as well as a variety of specific reasons for individual business).

Medi 2010

September 2010